Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwerthusiad Proses y Warant i Bobl Ifanc:

## Crynodeb i Bobl Ifanc





**Nod y gwerthusiad oedd edrych ar sut sefydlwyd y Warant a sut mae'n gweithio gyda'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid. Edrychodd ar sut maent wedi cael eu rhoi ar waith. Gwnaeth hefyd archwilio mor dda y mae'r Warant yn ymgysylltu â phobl ifanc ac yn eu cefnogi.**

## Beth yw'r Warant i Bobl Ifanc?

Mae'r **Warant i Bobl Ifanc** (y Warant) yn rhoi cymorth i bobl ifanc 16 i 24 oed sy'n byw yng Nghymru ddod o hyd i addysg, hyfforddiant neu swydd, neu ddod yn hunangyflogedig. Wedi'i chyflwyno yn 2021, mae'n ceisio rhoi mynediad hawdd i bobl ifanc at gyngor, arweiniad, cymorth a rhaglenni i'w helpu i lwyddo.

Mae gwasanaeth **Cymru'n Gweithio** yn rhan o Gyrfa Cymru ac mae'n rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd am ddim a diduedd. Mae hyn yn rhoi ffordd i bobl ifanc gael mynediad at gymorth y Warant (er bod rhywfaint o'r cymorth hwn hefyd ar gael yn uniongyrchol i bobl ifanc, heb yr angen i fynd drwy wasanaeth Cymru'n Gweithio). Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys:

**Cymunedau am Waith a Mwy**
Gwasanaeth cyngor a mentora swyddi i bobl 20 oed a throsodd. Mae'n helpu pobl sy'n wynebu rhwystrau i gyflogaeth. Gellir ei ddefnyddio hefyd gan bobl 16 i 19 oed nad ydynt yn addas ar gyfer cymorth gan raglenni eraill, neu sy'n dewis peidio â chael cymorth gan y rhaglenni hynny.

**Twf Swyddi Cymru Plws**
Rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer pobl rhwng 16 a 19 oed. Ei nod yw rhoi'r sgiliau, y cymwysterau a'r profiad sydd eu hangen ar bobl ifanc i gael swydd neu hyfforddiant pellach.

**Syniadau Mawr Cymru**
Cymorth a chyngor hunangyflogaeth i bobl 25 oed ac iau.

**Prentisiaethau**
Hyfforddiant ymarferol mewn swydd ar y cyd ag astudio.

Mae Y **Warant i Bobl Ifanc: adroddiad ar brif bwyntiau Mawrth 2024 i Mawrth 2025** yn cynnwys rhagor o wybodaeth.





## Beth yw'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid?

Mae'r **Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid** wedi bod ar waith ers 2013. Mae'n gweithio gyda'r Warant i Bobl Ifanc. Mae'n helpu pobl ifanc 11 i 18 oed:


- nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant;
- sydd mewn perygl o fod allan o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant;
- sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Mae'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid yn helpu pobl ifanc sydd angen cymorth wedi'i deilwra i'w hamgylchiadau. Mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn gweithio gyda sefydliadau eraill i ddarparu'r cymorth hwn. Mae pobl ifanc sydd â'r rhwystrau mwyaf i ymgysylltu â dysgu yn cael gweithwyr arweiniol, fel gweithwyr ieuenctid, i'w helpu i symud ymlaen i addysg, gwaith neu hyfforddiant pan fyddant yn gadael yr ysgol.



# Cerrig Milltir Cenedlaethol Cymru

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn cynnwys saith nod llesiant cenedlaethol. Dangosir y nodau hyn isod.




Rhaid i Weinidogion Cymru osod **dangosyddion cenedlaethol** i wirio a ydym yn symud tuag at y nodau llesiant. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gosod cerrig milltir cenedlaethol i ddangos y cynnydd y maent yn ei ddisgwyl erbyn 2050.

Mae un dangosydd cenedlaethol yn ymwneud â chanran y bobl mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant. Mae hyn yn cael ei fesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.

Dangosydd cenedlaethol arall yw canran y bobl mewn cyflogaeth.

Y cerrig milltir cysylltiedig yw:

> bydd o leiaf 90% o'r rhai 16 i 24 oed mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant erbyn 2050;

> dileu'r bwlch rhwng cyfradd gyflogaeth Cymru a chyfradd y DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu nifer y bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cyfranogi yn y farchnad lafur.

Nod y Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid yw helpu i gyflawni'r cerrig milltir cenedlaethol hyn.





## Sut cafodd gwybodaeth ei chasglu ar gyfer y gwerthusiad?

Roedd y dulliau ymchwil yn cynnwys:

- Adolygiadau o ystadegau swyddogol, gwybodaeth reoli gan wasanaethau a rhaglenni sy'n helpu i gyflawni'r Warant, a gwerthusiadau o'r gwasanaethau a'r rhaglenni hyn.
- Cyfweliadau, grwpiau ffocws a gweithdai gyda 75 o randdeiliaid sy'n ymwneud â datblygu a/neu gyflawni'r Warant a/neu sy'n gweithio ar y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid.
- Cyfweliadau manwl gydag 81 o bobl ifanc 16 i 24 oed sy'n byw mewn gwahanol rannau o Gymru. Roedd y bobl ifanc yn cynrychioli amrywiaeth o nodweddion cydraddoldeb. Trafododd y cyfweliadau eu profiadau o bontio (er enghraifft, symud o addysg i waith).

## Canfyddiadau

### Cynllun

Mae'r Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid yn rhannu nodau. Mae gwahaniaethau rhyngddynt hefyd. Ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, gellir olrhain pobl ifanc a chysylltu â nhw, a rhaid iddynt wrthod y cynnig cymorth. Mewn cyferbyniad, ar gyfer y Warant, rhaid i bobl ifanc ddewis manteisio ar gymorth. Disgwylir bod pobl ifanc 18 oed a throsodd yn annibynnol fel oedolion. Mae gorfod dewis manteisio ar gymorth yn gweithio'n dda i bobl ifanc sy'n teimlo cymhelliant i barhau mewn addysg neu hyfforddiant neu ddod o hyd i waith. Mae rhwng 85 a 90% o bobl ifanc 16 i 24 oed yn pontio'n llwyddiannus i addysg, gwaith neu hyfforddiant. Ond mae gorfod dewis manteisio ar gymorth yn golygu y gall nifer fach o bobl ifanc nad ydynt yn chwilio am addysg, gwaith neu hyfforddiant golli allan.

## Rhoi hyn ar waith

Fel rhan o'r gwerthusiad, gwnaethom gyfweld â phobl a oedd yn ymwneud â sefydlu a chyflawni'r Warant a/neu a oedd yn gweithio ar y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid. Gwnaethant awgrymu bod rhoi'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a'r Warant ar waith wedi gweithio'n dda ar y cyfan. Ond roedd y meysydd i'w gwella yn cynnwys:

- Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad mwy manwl a diduedd i bobl ifanc sy'n gwneud dewisiadau yn 16 oed.
- Gwell cyfathrebu gwybodaeth i bobl ifanc am y llwybrau y gallant eu cymryd pan fyddant yn gadael yr ysgol.
- Cryfhau ymgysylltu â chyflogwyr fel rhan o'r Warant.
- Datblygu cysylltiadau ymhellach rhwng Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU a gwasanaethau a rhaglenni'r Warant.



## Effeithiolrwydd

Mae'r Warant yn gweithio i nifer fawr o bobl ifanc. Mae dros 50,000 bellach wedi manteisio ar y cymorth. Dangosodd y gwerthusiad fod:

- Amrywiaeth o gymorth yn cael ei gynnig gan y Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid. Mae hyn yn gweithio'n dda i gynnwys a chefnogi pobl ifanc. Rhoddir y cymorth drwy wasanaethau fel Cymru'n Gweithio a'r Gwasanaeth Di-waith. Mae hefyd yn cael ei roi drwy raglenni fel Twf Swyddi Cymru Plws a Cymunedau am Waith a Mwy.
- Mae tua 40 i 60% o bobl ifanc sy'n cael cymorth gan raglenni sy'n rhan o'r Warant yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol (er enghraifft, dod o hyd i swydd neu symud ymlaen yn eu haddysg). Fodd bynnag, nid oedd yn glir a allai rhai o'r canlyniadau hyn fod wedi digwydd beth bynnag, heb i'r cyfranogwyr dderbyn cymorth y Warant.

At hynny, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod:

- Lleiafrif sylweddol o bobl ifanc nad ydynt yn manteisio ar y cynnig cymorth.
- Ar y cyfan, mae tangynrychiolaeth barhaus pobl ifanc anabl 16 i 24 oed mewn rhaglenni addysg, gwaith a hyfforddiant ac yn gyffredinol mewn addysg, gwaith a hyfforddiant. Mae hyn er gwaethaf cynrychiolaeth gryfach o bobl ifanc anabl mewn rhaglenni fel Twf Swyddi Cymru Plws.
- Nid oes cynrychiolaeth ddigonol o fenywod ifanc hefyd mewn rhai gwasanaethau a rhaglenni cymorth EET.

Yn ogystal, mae gormod o bobl ifanc sydd mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant nad ydynt yn cyrraedd eu potensial. Er enghraifft, gallent fod mewn addysg neu hyfforddiant anfoddhaol. Neu efallai eu bod mewn gwaith annheg, sy'n talu'n wael, yn ansicr ac nad yw'n cynnig llawer o gyfle i symud ymlaen.

Mae ystadegau swyddogol yn dweud wrthym bod cyfanswm y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant yng Nghymru wedi gostwng ers y Dirwasgiad Mawr (2008 i 2010). Mae'r gostyngiad hwn wedi bod yn arbennig o amlwg ar gyfer menywod ifanc rhwng 19 a 24 oed. Fodd bynnag, ymhlith pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant, mae tuedd i rai grwpiau beidio â chwilio am waith.

Fel y dangosir yn Siartiau 1 a 2 isod, o'i gymharu â 2010, yn 2023 bu cynnydd yn nifer y dynion ifanc rhwng 19 a 24 oed nad oeddent mewn addysg, gwaith na hyfforddiant nad oeddent yn chwilio am waith nac ar gael i ddechrau gwaith (a elwir yn economaidd anweithgar). Mewn cyferbyniad, yn y cyfnod hwn, roedd nifer y menywod ifanc rhwng 19 a 24 oed nad oeddent mewn addysg, gwaith na hyfforddiant a oedd yn economaidd anweithgar wedi lleihau. Mae hyn o bosibl yn adlewyrchu:


- Y cynnydd yng nghyfran y bobl ifanc (yn enwedig dynion ifanc) sy'n economaidd anweithgar oherwydd salwch; a
- gostyngiad yng nghyfran y menywod ifanc sy'n economaidd anweithgar oherwydd cyfrifoldebau gofalu, a welwyd dros yr un cyfnod.

Mae'r cynnydd hwn mewn anweithgarwch economaidd yn bryder, oherwydd mae'n bosibl ei fod yn golygu bod y bobl ifanc hyn yn llai tebygol o chwilio am gymorth i ddod o hyd i waith, o'i gymharu â phobl ifanc sy'n ddi-waith ac sy'n chwilio am waith yn weithredol.



## Siart 1.

**Canran amcangyfrifedig dynion 19 i 24 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ôl statws diweithdra ac anweithgarwch economaidd, 2004 i 2023.**




## Siart 2.

**Canran amcangyfrifedig menywod 19 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ôl statws diweithdra ac anweithgarwch economaidd, 2004 i 2023.**




Ffynhonnell: **Llywodraeth Cymru: Datganiad Ystadegol Cyntaf Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur.** Mae'r amcangyfrifon ar gyfer 2023 yn rhai dros dro.

### Pontio pobl ifanc

Siaradodd y bobl ifanc a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad am amrywiaeth o bethau a wnaeth eu helpu neu na wnaethant eu helpu i bontio i addysg, gwaith neu hyfforddiant. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Profiadau anodd yn yr ysgol. Roedd y rhain yn aml yn gysylltiedig â phrofiadau negyddol fel bwlio neu gyfnodau o amser mewn gofal. Roedd rhai pobl ifanc yn teimlo bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol a phroblemau iechyd heb eu diwallu. Roedd hyn yn cynnwys problemau iechyd meddwl. Soniwyd yn aml hefyd am y tarfu ar eu haddysg a achoswyd gan y pandemig.
- Amhariadau, niwrowahaniaeth a/neu broblemau iechyd meddwl. Roedd hyn yn cynnwys y ffyrdd y gallai'r rhain arwain at wahaniaethu wrth wneud cais am swydd. Roedd hefyd yn cynnwys methiant gan gymdeithas i wneud addasiadau rhesymol, er enghraifft yn y coleg.
- Rhwystrau i geisio neu dderbyn cymorth. Roedd hyn yn cynnwys diffyg gwybodaeth neu ymddiriedaeth/hyder mewn gwasanaethau. Roedd hefyd yn cynnwys teimladau bod pobl eraill yn edrych i lawr arnynt neu'n eu dirmygu am ddefnyddio'r Ganolfan Byd Gwaith neu wasanaethau iechyd meddwl.
- Teimlo ar goll neu'n ansicr am eu camau nesaf. Disgrifiodd pobl ifanc werth oedolion y gellir ymddiried ynddynt a allai helpu i'w harwain a'u cefnogi.



## Casgliadau

Mae'r Warant wedi dylanwadu ar y cymorth addysg, gwaith a hyfforddiant sydd ar gael i bobl ifanc yng Nghymru. Mae hefyd wedi helpu i gysylltu meysydd polisi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag addysg, gwaith a hyfforddiant ar ôl oedran ysgol statudol (16). Mae llawer o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed wedi manteisio ar gymorth gan raglenni fel Twf Swyddi Cymru Plws. Efallai fod hyn wedi helpu i leihau nifer y bobl ifanc hyn nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant. At hynny, ni chododd diweithdra ymhlith pobl ifanc ar ôl pandemig COVID-19 yn 2020 i 2021 fel y rhagwelwyd. Dywedodd llawer o gyfweleion fod hyn oherwydd llwyddiant y Warant a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid.

Fodd bynnag, mae'n llai clir a yw'r newidiadau hyn yn y cynnig cymorth wedi cyfrannu at newid mor fawr ag y gobeithiwyd yn ymddygiad pobl ifanc 19 i 24 oed. O'i gymharu â'r rhai rhwng 16 a 18 oed, mae cyfran uwch o bobl ifanc 19 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant. At hynny, ymhlith pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant, mae  cyfran uwch o bobl ifanc 19 i 24 oed na phobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt yn chwilio am waith ac nad ydynt yn ymgysylltu â'r Warant.

Mae gwahaniaethau mewn casglu data ar draws gwahanol raglenni a gwasanaethau ac mae anhawster cymharu data gwasanaethau neu raglenni ag ystadegau cenedlaethol (er enghraifft, ar anabledd). Mae hyn yn ei gwneud yn anodd profi mor effeithiol mae'r Warant wedi bod i wahanol grwpiau o bobl ifanc. Ond canfu'r gwerthusiad fylchau a gwendidau mewn cymorth addysg, gwaith a hyfforddiant i rai pobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys pobl ifanc sy'n profi problemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol, y rhai sy'n niwrowahanol a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.



## Beth mae hyn yn ei olygu i bolisi Llywodraeth Cymru?

Mae'r rhaglenni presennol sy'n ffurfio'r Warant yn effeithiol ac yn seiliedig ar dystiolaeth (wedi'i lywio gan 'yr hyn sy'n gweithio'). Ond mae'r gwerthusiad yn dangos bod angen strategaethau newydd i gyrraedd pobl ifanc ac ymgysylltu â nhw. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bobl ifanc 19 i 24 oed sydd wedi ymddieithrio fwyfwy o addysg, gwaith a hyfforddiant a'r cymorth sydd ar gael. Mae'n debygol y bydd angen y strategaethau newydd hyn i helpu i gyflawni'r cerrig milltir cenedlaethol, yn enwedig bod 90% o bobl ifanc mewn gwaith, addysg neu hyfforddiant erbyn 2050, a bod y cyfranogiad hwn yn cael ei gynyddu ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae'r opsiynau yn cynnwys parhau â dull presennol y Warant ac addasu'r cymorth a gynigir lle bo angen, a rhoi cynnig ar ddulliau newydd i helpu pobl ifanc. Os rhoddir cynnig ar ddulliau newydd, mae tystiolaeth ymchwil yn awgrymu bod angen arbrofi gyda'r rhain drwy roi cynnig arnynt mewn rhai ardaloedd lleol fel cam cyntaf. Er enghraifft, gellid sefydlu prosiect newydd i ganolbwyntio ar bobl ifanc nad ydynt yn ymgysylltu â chymorth gan y Warant. Er mwyn deall a oedd y prosiect newydd hwn yn gweithio, mae'r gwerthusiad yn argymell adolygiad rheolaidd, gyda newidiadau yn ôl yr angen. Mae hefyd yn argymell ffocws cryf ar brofiadau pobl ifanc yn ystod y prosiect, gan ystyried eu galluoedd, eu cymhellion, eu mynediad at gyfleoedd ac adborth ar y prosiect.

Mae gan berthynas ag oedolion y gellir ymddiried ynddynt ran i'w chwarae wrth ailymgysylltu â phobl ifanc mewn addysg, gwaith a hyfforddiant. Dylai hyn adeiladu ar gamau a gymerwyd i ysgogi pobl ifanc, fel yr ymgyrch Bydd Bositif a gwneud mynediad at daliadau lles yn amodol (er enghraifft, yn amodol ar chwilio am waith). Mae'r perthnasoedd rhwng pobl ifanc ac oedolion y gellir ymddiried ynddynt yn cymryd amser i'w datblygu a'u meithrin. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd cyllid hirdymor ar gyfer gwasanaethau.

Mae'n debygol bod y Warant i Bobl Ifanc yn gyfyngedig o ran faint y gall gynyddu galluoedd a chymhelliant pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd. Felly, mae'n debygol y bydd cyflawni'r cerrig milltir cenedlaethol yn gofyn am gamau gweithredu:

- mewn addysg a hyfforddiant cyn ac ôl-16 er mwyn helpu i adeiladu galluoedd pobl ifanc a gwella mynediad pobl ifanc at wybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt.
- gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau dull 'cydgysylltiedig' o gymorth cyflogaeth i bobl ifanc.
- gyda chyflogwyr a lleoliadau addysg a hyfforddiant er mwyn helpu i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud, lle bo'n briodol.

Bydd angen gweithredu ar draws adrannau Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r holl broblemau y gall pobl ifanc eu hwynebu. Bydd angen i Lywodraeth Cymru hefyd weithio gyda Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol yng Nghymru), ac yn rhanbarthol ac yn lleol drwy waith awdurdodau lleol a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

## Pwy gynhaliodd y gwerthusiad a beth oedd yr heriau?

Comisiynodd Llywodraeth Cymru elusen o'r enw Pobl a Gwaith i gynnal y gwerthusiad ym mis Ionawr 2023. Comisiynwyd Pobl a Gwaith hefyd i gynnal **Asesiad Gwerthusadwyedd** o'r Warant, i weld a oedd yn addas ar gyfer gwahanol fathau o werthuso a sut y gellid ei gwerthuso. Cyhoeddwyd hyn ym mis Ionawr eleni. Cyn hynny, cwblhaodd Pobl a Gwaith **Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant**, i archwilio'r dystiolaeth ymchwil ehangach ar y pwnc hwn. Yna cwblhawyd y gwerthusiad a ddisgrifir yn y crynodeb hwn rhwng mis Ebrill 2024 a mis Gorffennaf 2025.

Un her i'r gwerthusiad oedd diffinio ffiniau a chwmpas y Warant. Mae hyn oherwydd bod ganddi sawl rhan, yn ceisio goruchwylio'r holl raglenni cyflogadwyedd i bobl ifanc, ac mae ei chynnig wedi datblygu dros amser.

# Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, gallwch ddarllen y gwerthusiad llawn neu'r prif grynodeb, sydd ar gael yma: **llyw.cymru/y-warant-i-bobl-ifanc-gwerthusiad-proses**.

Gallwch hefyd ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y Warant i Bobl Ifanc ar-lein:

- Gwefan Cymru'n Gweithio: **Gwarant i Bobl Ifanc | Cymru'n Gweithio**.
- Adroddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru am ddatblygiadau'r Warant: **Y Warant i Bobl Ifanc: adroddiad ar brif bwyntiau Mawrth 2024 i Mawrth 2025**.
- Gwybodaeth am ymchwil grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda phobl ifanc ledled Cymru: **Sgwrs Genedlaethol Gwarant Pobl Ifanc: diweddariad i gyfranogwyr**.
- Trosolwg o ymchwil Beaufort: **Darparu mewnwelediad i anghenion pobl ifanc 16-24 oed yng Nghymru o ran addysg, hyfforddiant, a gwaith**.

Y cyfeiriad e-bost ar gyfer ymholiadau neu ragor o wybodaeth yw **cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru**

### Manylion am y crynodeb

Lluniwyd y crynodeb hwn gan Lywodraeth Cymru ac mae'n seiliedig ar adroddiad a luniwyd gan Pobl a Gwaith:

Duncan Holtom gyda Rhodri Bowen ac Emma Preece (2025), Y Warant i Bobl Ifanc: Gwerthusiad Proses. Crynodeb. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Rhif adroddiad GSR 93/2025.

Mae'r ddolen i'r adroddiad hwn uchod.

Roedd yr holl ffigurau yn gywir ar adeg ddrafftio.

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sydd yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru,
WG52997, ISBN digidol 978-1-80633-538-1
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.